**CYTUNDEB CYDWEITHIO (Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth)**

**COMISIYNYDD PLANT CYMRU,**

**COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU,**

**COMISIYNYDD Y GYMRAEG,**

**COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

**AC**

**OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

---

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cytundeb y deuwyd iddo gan Gomisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chydweithredu, gweithio ar y cyd a chyfnewid gwybodaeth. Nid yw'n effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y sefydliadau hynny na'r dull o'u hymarfer; nid yw chwaith yn newid unrhyw bolisïau neu gytundebau eraill sy'n ymwneud â'u gweithgareddau. Nid yw'n awgrymu unrhyw drosglwyddo cyfrifoldeb oddi wrth un i'r llall/lleill, nac yn awgrymu unrhyw rannu ar gyfrifoldebau statudol, ac eithrio lle mae statud yn caniatáu hynny.

Mae'r cytundeb hwn yn nodi: set o egwyddorion a dulliau cyfathrebu y cytunwyd arnynt. Mae dau atodiad sy'n cyflwyno prif nodau pob un o'r sefydliadau a'r sail gyfreithiol ar gyfer cydweithio ffurfiol rhwng ein sefydliadau.

Nid yw'r cytundeb hwn yn gyfreithiol rwymol.

## 2. Set o egwyddorion y cytunwyd arnynt:

- Nod trosfwaol ein pum corff yw cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol a chynaliadwy yng Nghymru sy'n parchu ac yn hybu hawliau dynol dinasyddion yng Nghymru ac yn sensitif i anghenion aelodau mwyaf difreintiedig a bregus cymdeithas.

- Cyrff o statws cyfartal ydym ni, a byddwn yn dangos parch at gylchoedd gwaith a phwerau statudol penodol ein gilydd.

- Rydym yn rhoi gwybod i’n gilydd yn brydlon am unrhyw weithgareddau mae unrhyw un ohonom yn eu cyflawni, neu’n ystyried eu cyflawni, a allai orgyffwrdd â buddiannau eraill.

- Rydym ni’n cyfathrebu’n agored â’n gilydd, gan ymateb yn brydlon i ymholiadau gan ein gilydd a cheisio datrys unrhyw anghydfod mewn modd cyfeillgar, adeiladol.

- Rydym ni’n agored i weithio ar y cyd lle mae’n debygol y gallai hynny fod yn fwy effeithiol a phriodol, gan barhau i fod yn ymwybodol o'n cylchoedd gwaith unigol. Gallai hynny gynnwys achosion unigol, adolygiadau thematig, ymgyrchoedd, archwiliadau neu adolygiadau ar y cyd.

- Nid ydym yn ceisio ymyrryd â’n gilydd o ran sut cyflawnir swyddogaethau, nac adolygu hynny, ac eithrio lle mae darpariaethau statudol yn caniatáu hynny.

- Yn ein gweithgareddau a’n cyfathrebu ar y cyd rydym ni’n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data (GDPR a Deddf Diogelu Data 2018) a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a deddfwriaeth berthnasol.

## 3. Y berthynas yn ymarferol

Nodweddir y berthynas waith rhyngom gan gyswllt rheolaidd, parhaus a chyfnewid gwybodaeth yn agored rhyngom ni a’n staff.

Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng y gwahanol Gomisiynwyr a’r Ombwdsmon yn ôl y gofyn, ond bob chwe mis o leiaf. Mae’r cyfarfodydd hyn yn ystyried, ymhlith pethau eraill, raglenni gwaith a’r cyfleoedd i weithio ar y cyd neu gydweithio ar amrywiaeth o eitemau gwaith.

Nid oes gan y cyfarfodydd hyn gadeirydd penodol, ond mae’r cyfrifoldeb am drefnu a chadeirio’r cyfarfodydd a chymryd cofnodion ynddynt yn mynd o amgylch y sefydliadau yn eu tro.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi llofnodi’r cytundeb hwn. Serch hynny, fel Corfforaeth Un Person sy’n rhannu’r nod o gyfrannu at wasanaethau cyhoeddus ardderchog, mae ACC yn cyfranogi’n llawn yng nghyfarfodydd grŵp y Comisiynwyr a’r Ombwdsmon ac mae yr un mor ymroddedig i’r ysbryd o weithio’n agored ar y cyd, gan barchu ein gilydd, a ddisgrifir yn y cytundeb hwn.

Rydym ni'n cytuno i fynd ati'n rhagweithiol i hysbysu ac ymgynghori â'n gilydd pan fyddwn yn enwi un arall o'r llofnodwyr yn uniongyrchol mewn cyhoeddiad arfaethedig neu ddatganiad i'r cyfryngau.

Rydym ni'n cytuno i fynd ati'n rhagweithiol i hysbysu ac ymgynghori â'n gilydd cyn cyhoeddi adroddiad neu ddatganiad i'r cyfryngau a allai orgyffwrdd â materion sy'n gyfrifoldeb i eraill sydd wedi llofnodi'r cytundeb hwn.

Bydd pob sefydliad yn mynd ati'n rhagweithiol i rannu ei egwyddorion tywys a/neu ei gylch gorchwyl ar gyfer cychwyn adolygiad, archwiliad neu ymchwiliad lle gallai hynny orgyffwrdd â chyfrifoldebau corff arall sydd wedi llofnodi'r cytundeb hwn, ac eithrio achosion lle gallai neu lle byddai hynny'n peryglu gallu sefydliad i ymgymryd â dyletswyddau statudol.

Hefyd cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rhwng aelodau uwch o staff y Comisiynwyr a'r Ombwdsmon yn ôl y gofyn, ac ar faterion megis rhannu a dadansoddi data, cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus, materion polisi, cynllunio strategol, amcanion cydraddoldeb a monitro, a gwaith ymchwilio.

Mae staff eraill yn cysylltu â'i gilydd wrth i faterion o ddiddordeb cyffredin godi, sy'n galw am gydweithio a chyfathrebu. Gallai'r cyfryw faterion gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- gweithio ar y cyd neu'n gydweithredol lle bo hynny'n gyfreithlon o dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd ein sefydliadau, a lle bydd hynny'n arwain at y defnydd gorau o adnoddau;
- hyfforddiant ar y cyd a fyddai o fudd i fwy nag un o'r sefydliadau dan sylw, ac yn arwain at y defnydd gorau o adnoddau;
- rhannu gwybodaeth am dueddiadau, data, polisi a mentrau sy'n ymwneud â'r nod a rennir, sef sicrhau bod dinasyddion yn derbyn gwasanaethau o safon uchel;
- mynd ati'n rhagweithiol i rannu copïau electronig o adroddiadau yn dilyn adolygiadau ac archwiliadau neu ymchwiliadau a allai fod yn berthnasol i unrhyw gyd-lofnodwyr eraill y Memorandwm;
- rhannu pryderon a fynegwyd wrth un cyd-lofnodydd gan unigolyn neu ei (h)eiriolydd a allai fod yn berthnasol i unrhyw gyd-lofnodydd arall;
- atgyfeirio achosion yn uniongyrchol lle mae un cyd-lofnodydd yn barnu y byddai cyd-lofnodydd arall mewn sefyllfa i gynorthwyo;

- nodi materion a allai arwain at weithio ar y cyd neu'n gydweithredol â chyd-lofnodydd arall;
- ymgynghori mewn perthynas â chanllawiau neu adroddiadau a gynhyrchir gan un cyd-lofnodydd sy'n cyfeirio at gyfrifoldebau neu swyddogaethau cyd- lofnodydd arall;
- cydweithio i ledaenu gwybodaeth am arfer da lle mae'r arfer da hwnnw'n berthnasol i brif nodau cyd-lofnodydd arall;
- sicrhau bod ymholwyr ac achwynwyr posibl neu wirioneddol yn derbyn gwybodaeth gywir sydd o gymorth ynghylch swyddogaethau cyfreithiol y cyd-lofnodwyr eraill, lle gallai'r wybodaeth honno fod o ddefnydd iddynt.

Bydd pob sefydliad yn gwneud ymdrech resymol i gynorthwyo'r lleill gydag unrhyw gais.

Bydd pob sefydliad yn rhannu manylion eu polisïau a'u gweithdrefnau mewnol ar gais sefydliad arall. Mae hynny o gymorth i wneud defnydd da o arian cyhoeddus trwy rannu elfennau sy'n arloesi ac yn datblygu.

Bydd pob sefydliad yn sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o gynnwys y cytundeb hwn, yr egwyddorion ar gyfer gweithio ar y cyd, a bod ganddynt ymwybyddiaeth o rolau pob sefydliad a'r fframwaith statudol y mae'n rhaid iddynt weithredu oddi mewn iddo.

## 4. Protocol ar gyfer cynnal archwiliad ar y cyd neu ymchwiliad ar y cyd, ac ar gyfer gwaith arall sy'n digwydd ar y cyd neu'n gydweithredol

Bydd cwmpas unrhyw waith ar y cyd neu gydweithio fel arfer yn cael ei drafod a'i gytuno gan y gwahanol Gomisiynwyr a/neu'r Ombwdsmon.

Mae rhyddid gan bob un o'r Comisiynwyr a'r Ombwdsmon i benodi ymgynghorwyr arbenigol y cytunwyd arnynt.

Wrth weithredu ar y cyd, gellir penodi un o'r sefydliadau yn sefydliad arweiniol ar gyfer yr archwiliad neu'r ymchwiliad dan sylw.

Dylid cytuno ar amcanion, methodoleg ac adnoddau ar gyfer y gwaith, a dylai hynny gael ei gymeradwyo gan y person perthnasol ym mhob sefydliad. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o hyn a phob penderfyniad sy'n dilyn. Bydd pob sefydliad yn cefnogi enw da'r lleill.

Dylid gofalu bob amser nad yw trywydd tystiolaeth yn cael ei lygru, ac nad yw unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd statudol na chyfraith gyffredin yn cael ei thorri.

Os a phan fydd cymalau penodol yn y ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at gynnal archwiliad ar y cyd neu ymchwiliad ar y cyd, neu unrhyw waith arall ar y cyd neu'n gydweithredol, bydd pob sefydliad yn gweithio'n unol â'r rheiny.

## 5. Cysoni anghytundeb

Bydd yr holl gyd-lofnodwyr yn ceisio datrys unrhyw anghytundeb yn gyfeillgar ar lefel weithredol. Os na ellir datrys anghytundeb ar y lefel honno, dylai uwch- reolwyr o'r sefydliadau sy'n anghytuno â'i gilydd geisio datrys unrhyw fater.

## 6. Adolygu

Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei adolygu flwyddyn ar ôl ei lofnodi. Wedi hynny, bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru, yn ôl y galw, bob dwy flynedd.

Llofnod: Dyddiad: 08/09/2025

**Rocío Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru**

Llofnod: Dyddiad: 08/09/2025

**Rhian Bowen-Davies, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Llofnod: Dyddiad: 12/09/2025

**Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg**

Llofnod: Dyddiad: 15/09/2025

**Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Llofnod: Dyddiad: 09/09/2025

**Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

## Atodiadau

### Atodiad 1: Crynodeb o brif nodau pob llofnodydd

**Prif nodau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

Diffinnir rôl a phwerau statudol y Comisiynydd gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau ategol.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r camau y mae'r Comisiynydd yn gallu eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, a'r cymorth y gall y Comisiynydd ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn dan rai amgylchiadau penodol.

Swyddogaethau rôl y Comisiynydd yw:

- hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen am ddiogelu'r buddiannau hynny;
- hybu darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn;
- annog arfer gorau yn y ffordd mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru; ac
- adolygu'n barhaus ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

**Prif nodau Comisiynydd Plant Cymru**

Sefydlwyd swydd Comisiynydd Plant Cymru – y gyntaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig – gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Ehangodd Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 y cylch gwaith a chyflwyno prif nod y Comisiynydd, sef diogelu a hybu hawliau a lles plant yng Nghymru. Mae gan y Comisiynydd bŵer i ystyried a chyflwyno sylwadau i Senedd Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

Gall Comisiynydd Plant Cymru wneud y canlynol:

- adolygu effeithiau polisïau, polisïau arfaethedig a darparu gwasanaethau i blant;
- archwilio achos plentyn neu blant penodol yn fanylach os yw hynny'n ymwneud â mater sy'n gyffredinol berthnasol i fywydau plant yng Nghymru;
- gofyn bod asiantaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu

gwybodaeth, a gofyn bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar eu llw; a

- darparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac i eraill sy’n pryderu am eu hawliau a’u lles.

**Prif nodau Comisiynydd y Gymraeg**

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, corff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg. Mae hynny’n cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a gosod safonau ar gyfer sefydliadau. Bydd hynny, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Mae pedwar egwyddor yn sylfaen ar gyfer gwaith y Comisiynydd:

- Statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- Y dyletswyddau i ddefnyddio’r Gymraeg a osodir (neu y gellir eu gosod) yn ôl y gyfraith, a’r hawliau sy’n deillio o allu gorfodi’r dyletswyddau hynny
- Ni ddylai’r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yng Nghymru
- Dylai pobl yng Nghymru fedru byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Mae’r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg, mae’n cynnal ymchwiliadau i faterion sy’n ymwneud â’r Gymraeg, ac yn ymchwilio i achosion sy’n ymyrryd â rhyddid i ddefnyddio’r Gymraeg, ac yn cynnal ymchwiliadau i fethiannau honedig i gydymffurfio â safonau’r Gymraeg.

**Prif nodau Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol**

Yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 mae’r Comisiynydd yn ceisio hybu datblygu cynaliadwy, gweithredu er mwyn gwarchod gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o sylw i effaith hirdymor y pethau maent yn eu gwneud.

Er mwyn gwneud hyn, bydd y Comisiynydd yn monitro ac yn asesu i ba raddau mae’r amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.

Gall y Comisiynydd wneud y canlynol:

- rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus, yn eu cefnogi i weithio tuag at eu hamcanion llesiant ac annog arfer gorau;

- rhoi cyngor i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch paratoi eu Cynlluniau Llesiant Lleol;
- cyflawni ymchwil sy'n cynnwys nodau llesiant, dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol, ac egwyddor datblygu cynaliadwy a sut mae cyrff cyhoeddus yn ei chymhwyso;
- cynnal adolygiadau i weld sut mae cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw i effaith hirdymor penderfyniadau, a chyflwyno argymhellion ar sail y canfyddiadau; a
- chyflwyno argymhellion i gyrff cyhoeddus ynghylch amcanion llesiant.

**Prif nodau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Sefydlwyd swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2006 gan Ddeddf OGCC 2005. Diwygiwyd y Ddeddf yn 2019 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus  Cymru yw:

- ymchwilio i gwynion am gyrff cyhoeddus
- ystyried cwynion bod cynghorwyr wedi torri'r cod ymddygiad
- sbarduno gwelliant systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Caiff yr holl ymchwiliadau eu cynnal yn annibynnol ac yn breifat. Mae ymchwiliwyr yn edrych i ganfod a yw corff cyhoeddus wedi ymddwyn yn briodol ac wedi bod yn deg yn ei driniaeth. Pan aiff pethau o chwith, gwneir argymhellion i ddatrys pethau.

Rhoddodd Deddf 2019 bwerau ychwanegol i'r Ombwdsmon ymchwilio pan gall fod methiannau gwasanaeth systemig, hyd yn oed heb fod wedi derbyn cwyn. Gelwir y rhain yn ymchwiliadau 'ar ei liwt ei hun' ac efallai y cânt eu cynnal os bodloni'r ein meini prawf ac os yw er budd y cyhoedd.

Crëwyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) hefyd o dan Ddeddf 2019 a'i nod yw sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus. Tasg yr ASC yw gweithio â Chyrff Cyhoeddus o fewn ei awdurdodaeth i:

- gefnogi dulliau effeithiol o ymdrin â chwynion
- casglu a chyhoeddi data

- darparu pecynau hyfforddi pwrpasol.

**Atodiad 2 Crynodeb o’r sail gyfreithiol ar gyfer cydweithredu a gweithio ar y cyd**

Mae *Deddf Safonau Gofal 2000*, a.75ZA yn amlinellu’r sail ar gyfer cynnal archwiliadau ar y cyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Lle mae’r Comisiynwyr yn cytuno bod ‘mater cysylltiedig’ sy’n destun pryder i’r ddau Gomisiynydd, cânt:

- gydweithredu â’i gilydd i archwilio’r mater cysylltiedig ar wahân; neu
- weithio ar y cyd i archwilio’r mater cysylltiedig; a
- pharatoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd sy’n cynnwys casgliadau’r ddau ohonynt mewn perthynas â’r mater cysylltiedig.

Mae Adran 67 o *Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 20019* yn rhoi pŵer i’r Ombwdsmon gyd-weithio â Chomisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu Gomisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys pŵer i wneud y canlynol:

- cydweithredu â’i gilydd mewn ymchwiliadau ar wahân y materion hynny,
- cydweithio wrth ymchwilio’r materion hynny, a
- paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd yn cynnwys eu casgliadau mewn perthynas â’r materion y maent wedi ymchwilio iddynt.

Mae Adran 20 o *Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011* yn amlinellu i ba raddau y gall Comisiynydd y Gymraeg weithio ar y cyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Adran 21 o *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yn amlinellu i ba raddau y gall Comisiynydd y Gymraeg gydweithio â’r Ombwdsmon a’r Comisiynwyr.[1]

Os ymddengys i Gomisiynydd y Gymraeg y gallai tesun ymchwiliad penodol i orfodi safonau fod yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon neu Gomisiynwyr eraill yn ogystal, ac mae Comisiynydd y Gymraeg yn barnu bod hynny’n briodol, rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg roi gwybod i’r Ombwdsmon neu’r Comisiynydd arall am yr ymchwiliad trwy rannu cylch gwaith yr ymchwiliad, ac ymgynghori â’r Ombwdsmon neu’r Comisiynydd arall mewn perthynas â’r ymchwiliad.

[1] Mae Adran 21(6)(a-d) yn cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a’r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Os bydd y Comisiynydd yn ymgynghori â'r Ombwdsmon neu Gomisiynydd arall mewn perthynas ag ymchwiliad, gall y Comisiynydd a'r Ombwdsmon neu'r Comisiynydd arall wneud unrhyw rai neu'r cyfan o'r canlynol:

- cydweithio â'i gilydd mewn perthynas â'r ymchwiliad;
- cynnal ymchwiliad ar y cyd; a
- pharatoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r ymchwiliad.

Lle nad yw Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliad, rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg, os yw hynny'n briodol, esbonio wrth y person sy'n ceisio cyflwyno'r achos sut mae cyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon neu Gomisiynydd arall perthnasol.

Dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a monitro ac asesu i ba raddau mae y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r ddyletswydd i wella llesiant cenedlaethau cyfredol heb gyfaddawdu â'r gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys ystyried pum ffordd o weithio. Un ohonynt yw cydweithio, a ddiffinnir yn adran 5(20(d) fel "sut y gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu sut y gallai gwahanol rannau o'r corff sy'n gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion".

Mae Adran 25 yn ymwneud â gweithio ar y cyd ac mae'n nodi, os yw Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am gynnal adolygiad i fater sydd o fewn cylch gwaith neu fater tebyg i fater sydd o fewn cylch gwaith y partïon i'r cytundeb hwn, y gallant eu hysbysu neu ymgynghori â nhw. Mae'r adran yn caniatáu i'r Comisiynwyr gydweithredu, cyhoeddi dogfennau neu adroddiadau ar y cyd gan gynnwys ar ymholiadau neu adolygiadau.